# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | John C. Bayliss | Adran Etholiadol: | Uplands |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi mynd i saith cyfarfod/cymhorthfa PACT. Cynhaliwyd y rhain ar y cyd â Swyddogion Cymorth Cymunedol lleol yr Heddlu (PCSOs). Hefyd, ymunais â Davies a Woollard, Cynghorwyr Uplands, wrth gynnal deg o'n cymorthfeydd ein hunain a gynhaliwyd ym Marchnad Uplands, gyda phob un yn para pedair awr.

Rwyf wedi bod yn agored ac yn atebol i bobl Uplands a Brynmill. Mae bod yn gynghorydd, y flwyddyn ddinesig hon, wedi bod yn ymrwymiad amser llawn ac rwyf am barhau i flaenoriaethu preswylwyr lleol mewn ffordd debyg ar gyfer y flwyddyn nesaf.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 7 / 7 | 100% |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 8 / 8 | 100% |
| Y Cyngor | 17 / 17 | 100% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 7 / 7 | 100% |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar yr Economi a Buddsoddi | 7 / 7 | 100% |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 4 / 6 | 67% |
| Pwyllgor Cynllunio | 6 / 6 | 100% |
| Pwyllgor Safonau | 4 / 8 | 50% |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 3 / 3 | 100% |
| Panel yr Ymddiriedolwyr | 2 / 3 | 67% |
| CYFFREDINOL | 65 / 72 | 90% |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

Ar ben hynny, fi oedd cynullydd y paneli ymchwilio craffu canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Panel Ymchwilio Craffu Strydlun | 3 / 3 | 100% |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Deuthum yn is-gadeirydd Pwyllgor Cynllunio'r awdurdod pan gafodd ei sefydlu ddechrau 2015.

Rwy'n parhau i weithredu fel yr aelod-hyrwyddo cydraddoldeb sy'n gyfrifol am gynrychioli rhyw, tueddfryd rhywiol a newid rhyw.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Parheais i wirfoddoli f'amser i gynorthwyo wrth ddatblygu Marchnad Uplands. Gweithiasom gyda'r trefnwyr i drefnu gosod pwynt pŵer cymunedol newydd ar Sgwâr Gwydr a fydd yn cynorthwyo'r farchnad a digwyddiadau cyhoeddus tebyg eraill.

Ym mis Mawrth 2015, dechreuais broses ystyried creu maes parcio newydd ar gyfer ardal fasnachol Uplands.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r cyrsiau hyfforddi canlynol:

12/03/2015 - Rôl Cynghorwyr mewn Cynllunio: Priodoldeb ac Arfer Da

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Parheais i ymddiddori'n fawr mewn materion cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, yn enwedig ym maes ynni, newid yn yr hinsawdd neu faterion ailgylchu.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 23/04/2015 |